| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Economi a Chymuned |
| **DYDDIAD** | 18 Mehefin 2026 |
| **TEITL** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Economi a Chymuned |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Cyfle i Graffu Perfformiad Gwasanaethau'r Adran 2025/26 |
| **AWDUR** | Sioned E Williams |
| **AELOD CABINET** | Cyng. R Medwyn Hughes |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

1.1 Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor graffu perfformiad Gwasanaethau o fewn yr Adran.

## 2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

2.1 Beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Economi a Chymuned. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor a gwaith dydd i ddydd yr Adran.

## 3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

3.1 Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed yn y flwyddyn 2025/26, yn ogystal ar fesuryddion perfformiad Gwasanaethau'r Adran. Mae'r holl faterion yn cael eu herio gennyf drwy'r flwyddyn, ac rwyf yn fodlon gyda'r perfformiad.

## 4. Cefndir / Cyd-destun

### Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor

4.1 Mae'r tabl yn Atodiad 1 yn rhoi diweddariad ar gynnydd pedwar prosiect blaenoriaeth Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 mae'r Adran Economi a Chymuned yn gyfrifol am eu gweithredu. Mae tri o'r prosiectau hyn yn adran Gwynedd Lewyrchus o'r Cynllun, sydd yn anelu i gryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng. Ond mae'r cyfrifoldeb i arwain ffrwd gwaith o fewn prosiect 'Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau' yn rhaglen Gwynedd Ofalgar wedi trosglwyddo i'r Adran ers 2025.

4.2 O’r wybodaeth, fe nodwch fod yr Adran wedi gwneud cynnydd da yn erbyn prif gerrig milltir y prosiectau hyn dros y flwyddyn diwethaf. Y prif risg sy’n gyffredin i’r pedwar cynllun yma ydi fod y cronfeydd sydd wedi ariannu’r gwaith ers 2023 wedi dod i ben diwedd Mawrth 2026 ac ansicrwydd am gyllidebau’r Llywodraeth fydd yn dod yn eu lle yn parhau. Hoffwn dynnu sylw yn benodol at y materion canlynol:

**Prosiect Blaenoriaeth: Hyrwyddo Ein Diwylliant ac Economi Ymweld Cynaliadwy**

4.3 Mae Cynllun Gweithredu Gwynedd & Eryri 2035 (G&E2035) wedi ei roi ar waith i gefnogi economi ymweld gynaliadwy yn y Sir – hynny ar sail y prif bwyntiau godwyd yn yr Arolwg Trigolion, adborth mynychwyr yr uwchgynhadledd fis Chwefror 2025 a thrafodaethau yn strwythurau Partneriaeth G&E2035 ac Ardal Ni.

4.4 Bu i Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll)Etc. Cymru ddod i rym fis Medi 2025. Mae’r Cyngor yn cyd-weithio gyda siroedd Conwy a Môn ac Awdurdod Cyllid Cymru i sicrhau bod ein gweithdrefnau ardrawiad effaith, ymgynghori a phenderfynu yn cyd-fynd lle’n bosib. Cafodd adroddiad ar y pwnc ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu fis Chwefror 2026 ac yna i'r Cyngor Mis Mai 2026 pan benderfynwyd mynd allan i ymgynghori ar sefydlu Ardoll Ymwelwyr i Wynedd.

4.5 Mae grantiau gwerth bron i £300,000 wedi eu cynnig i 69 o sefydliadau ar draws Gwynedd yn y flwyddyn diwethaf i gefnogi gweithgareddau diwylliannol, digwyddiadau a gweithgareddau i hyrwyddo byw’n iach. Mae manylion llawn prosiect Diwyllesiant yma - Prosiect Diwyllesiant

4.6 Cynhaliwyd gweithdy diwylliant yn Neuadd Dwyfor mis Hydref i gyd-ddatblygu gweledigaeth ac amcanion ar gyfer diwylliant yng Ngwynedd i'r dyfodol. Bydd y weledigaeth a’r amcanion yn cael eu mireinio a’u cadarnhau dros y misoedd nesaf ac yn gosod cyfeiriad ac uchelgais i'r dyfodol. Mae’r Cyngor wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ymchwil i gyfraniad diwylliant i economi a llesiant cymunedau Gwynedd fydd yn cyfrannu at gynllun gweithredu diwylliant.

4.7 Rwy’n hynod falch o weld cynnydd yn ein prosiect Llewyrch o’r Llechi. Mae gweithgareddau’r prosiect bellach wedi denu dros £35m o fuddsoddiad i gymunedau llechi Gwynedd. Mae manylion llawn ar gael yn yr Adroddiad Blynyddol. Fe nodwch yn y flwyddyn diwethaf fod 68 o ddigwyddiadau wedi eu cynnal yn y cymunedau gyda 3,100 o bobl wedi mynychu a dysgu mwy am werth ein treftadaeth yn y cymunedau. Agorwyd adeilad Yr Aelwyd ym Mlaenau Ffestiniog, dad-orchuddiwyd celf cyhoeddus yn ein trefi a’n pentrefi llechi, cwblhawyd gwelliannau stryd ac arwyddo ac mae gwaith adeiladu ar ganolfan ymwelwyr newydd Parc Padarn wedi ei gwblhau.

**Prosiect Blaenoriaeth: Adfywio Cymunedau a Chanol Trefi**

4.8 Mae’r prosiect wedi cyflawni holl gerrig milltir a gytunwyd ar gyfer y flwyddyn diwethaf. Mae £8.9m wedi ei fuddsoddi ar brosiectau sy’n cyfrannu at hybu ac adfywio canol trefi Gwynedd ar draws y sir. Fe nodwch o Atodiad 1 yr ystod o brosiectau ar draws Gwynedd sydd wedi derbyn buddsoddiad. Mae’r Cyngor wedi cyflawni hyn drwy dargedu cronfeydd gan y Llywodraeth ac felly mae’r gwaith wedi ei gyfyngu i ganllawiau’r rhaglenni grant sydd yn bennaf ar gyfer gwella gwedd a golwg adeiladau canol tref. Mae cwestiwn wedi ei godi am fuddsoddiadau amgen mewn canol trefi allasai gael effaith ar fwrlwm canol tref. Yn dilyn y drafodaeth yn y

cyfarfod herio a chefnogi perfformiad, dwi wedi gofyn i'r Adran ystyried gwneud gwaith ar pa fesurau fyddai yn cael yr effaith fwyaf ar fwrlwm canol tref i'r dyfodol.

4.9 Eleni, fel rhan o Cynllun Adfywio Gwynedd Ni, sefydlwyd Cronfa Cynghorau Tref a Chymuned fel cynllun peilot a gwahoddwyd cynigion am gyfraniad gan pob un o'r Cynghorau hyn. Gyda chyllideb o £370k, mae grantiau wedi eu cynnig i 55 Cyngor Tref / Cymuned Gwynedd. Mae natur y prosiectau yn amrywio ac yn cynnwys cyfres o furluniau o amgylch terfi/ pentrefi, offer chwarae newydd mewn parciau sydd o dan rheolaeth Cynghorau lleol, dodrefn stryd yn cynnwys raciau cadw beics, meinciau, paneli gwybodaeth, gwelliannau i ganolfannau cymunedol a chynlluniau tirweddu.

4.10 Bydd cyfle i'r Pwyllgor graffu ymhellach ar weithgaredd yr Adran wrth gefnogi adfywio canol trefi mis Gorffennaf.

**Prosiect Blaenoriaeth: Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith**

4.11 Fe nodwch o Atodiad 1 fod £1.3 miliwm wedi ei dargedu o gronfeydd Llywodraeth i sefydlu cronfa i gefnogi 118 o fusnesau Gwynedd yn 2025/26. Mae rhaglen o sesiynau galwch heibio ac Arolwg Busnes wedi ei gynnal dros y flwyddyn i ddeall yn well y rhwystrau sy'n wynebu mentrau, gyda pecyn o sesiynau gwybodaeth / hyfforddiant wedi eu darparu mewn ymateb.

4.12 Mae mabwysiadu strategaeth economaidd newydd yn y flwyddyn diwethaf wedi bod yn gam allweddol er mwyn sicrhau fod blaenoriaethau Gwynedd yn cael eu cyflawni. Bydd y Strategaeth yn gosod cyfeiriad clir i raglen fuddsoddi'r Cyngor a phartneriaid i'r dyfodol. Un o'r prosiectau blaenoriaeth o fewn rhaglen waith 2025/26 ydi sefydlu Parc Gwyddoniaeth Trawsfynydd. Dwi'n falch o adrodd fod cynnydd da ar ddatblygu'r achos busnes ar gyfer sefydlu Canolfan Arloesi newydd ar safle'r Parc Gwyddoniaeth, i warchod, cynnal a chreu swyddi newydd sy'n talu'n dda yng Ngwynedd. Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi ymrwymo £10miliwn tuag at y cynllun yn ddibynnol ar gynnwys yr achos busnes manwl. Bydd adroddiad mwy manwl ar y cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yma maes o law.

4.13 Yn ogystal, fe nodwch o Atodiad 1 fod cymorth wedi ei ddarparu i 255 o drigolion Gwynedd gael gwaith, gyda 130 wedi cael cefnogaeth i'w galluogi i ennill cyflog gwell; datblygu sgiliau a goresgyn rhwystrau.

4.14 Yn olaf, fe nodwch fod gwaith adeiladu wedi cychwyn i godi 10 uned gwaith newydd yn Minffordd. Rhagwelir bydd yr unedau yn barod yn hydref 2026.

**Prosiect Blaenoriaeth: Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau**

4.15 Fe nodwch o Atodiad 1 fod trefniadau Hwb bellach ar waith ym mhob un o'r 13 ardal ar draws y sir. Mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu model mwy cynaliadwy o ddarparu cefnogaeth mewn 3 ardal sef Tywyn, Abermaw a Blaenau Ffestiniog, drwy ymgorffori trefniadau'r Hwb o fewn gwasanaeth Llyfrgelloedd Gwynedd. Fel rhan o'r model newydd o gefnogaeth gymunedol, mae holl staff Llyfrgelloedd Gwynedd wedi dechrau ar hyfforddiant. Mae'r Hwyluswyr Lles hefyd wedi sefydlu rhaglen o

sesiynau galw heibio mewn llyfrgelloedd lleol, ynghyd â digwyddiadau partneriaeth i godi ymwybyddiaeth o gymorth costau byw a gwasanaethau cefnogi sydd ar gael.

4.16 Mae 6 rownd o grantiau bwyd wedi eu cynnal i gefnogi cynlluniau bwydo cymunedol ar draws y sir. Hyd yma mae grantiau gwerth £217,743 wedi eu dyrannu i grwpiau cymunedol a banciau bwyd i gryfhau cefnogaeth lleol i drigolion. Dwi'n gweld fod y trefniadau newydd yn mynd i arwain at gefnogaeth mwy sefydlog, cyson ac integredig i drigolion mwyaf bregus Gwynedd.

**Gwaith dydd i ddydd yr Adran**

4.17 Mae Dashfwrdd Perfformiad yr Adran yn Atodiad 2. Mae'n cael ei graffu yn rheolaidd, gyda cyfarfodydd wedi eu trefnu dros y flwyddyn i fy ngalluogi i gefnogi a herio gwasanaethau ar y perfformiad. Hoffwn dynnu sylw Aelodau'r Pwyllgor i'r materion canlynol:

**Gwasanaethau Hamdden - Adnoddau Hamdden Byw'n Iach, Parciau Gwledig Padarn a Glynllifon, Morwrol, Hafan Pwllheli a Doc Fictoria, Caernarfon.**

4.18 Mae'r gwaith buddsoddi grant ym Mharc Padarn a Glynllifon yn parhau. Ym Mharc Padarn mae gwelliannau i'r Inclein, Bloc Croeso newydd a gwelliannau i'r maes parcio bellach wedi eu cwblhau; ynghyd â gwelliannau i rwydwaith llwybrau ym Marc Glynllifon. Mae cyfartaledd boddhad cwsmer y Parciau Gwledig yn 88%, ond mae hefyd werth nodi fod gwaith ehangach yn digwydd ym Mharc Padarn, gan gynnwys buddsoddiad Amgueddfa Lechi Cymru sydd ar gau ar hyn o bryd.

4.19 Gwelir fod nifer ymweliadau cronnus canolfannau hamdden Byw'n Iach dros y flwyddyn yn 964,980 – sydd 5.6% yn llai na 2024/25. Fel a nodir yn yr atodiad, mae amryw o resymau am hyn, yn cynnwys cynnydd mewn nifer cwsmeriaid sydd yn talu drwy ddebyd uniongyrchol ac felly ddim yn cael eu cofnodi yn yr un ffordd; a newid hefyd i sut oedd nifer ymweliadau oedd yn hanesyddol wedi eu cofnodi drwy 'luosydd' defnydd clwb. Ystyrir fod y drefn newydd, er nad yn gymharol efo data hanesyddol, yn fwy cywir ac yn sail gwell i fesur i'r dyfodol.

4.20 Yn ogystal, mae llai o ddefnydd gan ysgolion, a hynny er gwaetha ymdrech i annog mwy o ymweliadau ysgol. Rwy'n parhau i fod yn bryderus fod nifer disgyblion Gwynedd sydd yn cael gwersi nofio yn ein canolfannau yn gostwng. Yn dilyn trafodaethau gyda Byw'n Iach a'r Adran Addysg, llythyrwyd gyda cyrff Llywodraethol ysgolion Gwynedd gan ofyn iddynt roi ystyriaeth bellach i'r risgiau a'r anghyfartaledd ar draws y sir. Mae Byw'n Iach hefyd yn ystyried datblygu pecynnau penodol ar gyfer ysgolion fyddai o bosib yn gwneud ymweliadau i'r canolfannau hamdden yn fwy atyniadol a chynnig gwerth am arian pellach.

4.21 Mae ffigurau Boddhad Cwsmer wedi aros yn eithaf tebyg dros y flwyddyn diwethaf gyda gostyngiad bychan o 84.5% i 84.2%. Ond fe nodwch o'r atodiad fod rhaglen o welliannau wedi cael eu cyflawni a'u cynllunio er mwyn ymateb i'r sylwadau a gwella profiad defnyddwyr. Dros y flwyddyn misoedd diwethaf llwyddwyd i ddenu grantiau er mwyn gwneud gwelliannau i ystafell ffitrwydd Canolfan Hamdden Dwyfor, gwelliannau i Ganolfan Tenis Arfon, adnewyddu cae 3G Tywyn, a gwelliannau wedi

eu cwblhau ar gyfer caeau 3G yn Nolgellau a Porthmadog; ynghyd a gwelliannau trin dwr yn Nghanolfannau Bala ac Arfon.

4.22 Mae hyfywedd systemau pwll nofio Canolfan Byw'n Iach Bangor yn fy mhryderu. Mae'r Adran wedi dyrchafu lefel y risg ar ei gofrestr risg ac yn gweithio'n agos gyda Cwmni Byw'n Iach a Gwasanaeth Eiddo'r Cyngor i adnabod mesurau lliniaru tymor byr a chynlluniau buddsoddiad hir dymor. Byddwn yn adrodd ar gynnydd y gwaith yma dros y flwyddyn.

4.23 Fe nodwch o'r Atodiad fod 88% o gwsmeriaid Harbyrau Gwynedd a 70% o ymatebwyr arolwg boddhad cwsmer traethau o'r farn fod eu profiad yn 'dda iawn' neu 'dda'. Mae'r adborth dderbynnir o'r arolygon yma yn ddefnyddiol iawn i alluogi'r gwasanaeth ymateb gyda Adrannau eraill o'r Cyngor.

4.24 Cynyddodd nifer cwsmeriaid gyda chytundeb angori 9% yn ein harbyrau yn 2025/26 o'i gymharu a llynedd, sef cynnydd o 250 i 273 (dim yn cynnwys Hafan Pwllheli a Doc Caernarfon). Fe nodwch hefyd fod angorfeydd Hafan Pwllheli wedi bod 97% yn llawn yn 2025/26, gyda 86% o'r angorfeydd yn yr harbwr allanol yn llawn dros yr un cyfnod.

4.25 Yn ystod y flwyddyn cafwyd nifer o stormydd a chyfnodau o wyntoedd cryfion a gafodd effaith sylweddol ar yr harbyrau. Torrodd rhai cychod yn rhydd o'u hangorfeydd, suddodd eraill a difrodwyd nifer o gymhorthion mordwyo. Gwelwyd tirlithriadau hefyd a digwyddiad llygredd olew. Ymatebodd swyddogion y Gwasanaeth ar fyr rybudd, yn aml y tu allan i oriau gwaith arferol, i gyfyngu neu arbed difrod pellach.

4.26 Dros y flwyddyn 2025/26 mae angorfeydd Hafan Pwllheli wedi bod yn 96% yn llawn ac 86% yn yr Harbwr allanol. Nid yw hyn yn newid o 2024-25 ar gyfer yr Hafan. Mae pryderon yn parhau ynghylch lefelau siltio yn harbwr Pwllheli. Dros y misoedd diwethaf mae'r Gwasanaeth, gyda chefnogaeth technegol YGC, wedi symud ymlaen gyda gwaith rhagbaratoi a thechnegol pellach wedi ei wneud fel rhan o strategaeth garthu.

**Gwasanaethau Archifau, Amgueddfeydd, Celfyddydau a Llyfrgelloedd**

4.27 Fe nodwch fod 91% o ddefnyddwyr Gwasanaeth Archifau yn 'fodlon iawn' gyda'r gwasanaeth. Roedd y mwyafrif o sylwadau a dderbyniwyd yn gadarnhaol iawn, ond o'r rheiny nad oedd yn fodlon derbyniwyd sylwadau am yr oriau agor. Cwtogwyd yr oriau agor i'r isafswm a ganiateir gan yr Archifdy Gwladol yn sgil toriadau nôl yn 2016. Sicrhaodd y Gwasanaeth grant £341,000 gan Lywodraeth Cymru i fuddsoddi yn Archifdy Caernarfon ac Archifdy Dolgellau. Bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn diwedd Mehefin 2026 a bydd yn gwella cadwraeth ynni'r adeiladau a'r profiad a'r awyrgylch i ddefnyddwyr yn yr ystafelloedd ymchwil.

4.28 Dros y flwyddyn cafwyd adborth cadarnhaol, rhwng 97-100%, gan bartneriaid am y gwasanaeth celf cymunedol, yn seiliedig ar brosiectau fel Porthi Dre, Criw Celf i blant 7-11 oed; Stiwdio Lles i gefnogi bobl ifanc 18-30 oed (cynllun celf ar bresgripsiwn gyda grant Cyngor Celfyddydau mewn phartneriaeth â Chwmni Fran Wen a

Phrifysgol Bangor); Crefft er Lles i oedolion; Sgwrs a Chân i rai mewn fflatiau gofal gyda Chanolfan William Mathias. Darparwyd grantiau Celfyddydau Cymunedol Noson Allan a Chefnogi'r Celfyddydau, i sicrhau bod cyfleodd drwy Wynedd e.e. yn Croesor, Bangor, Nefyn, Bala a Llanbedr. Rôl bwysig gan y gwasanaeth ydi rhoi cyngor a chefnogaeth i unigolion a sefydliadau ac i annog partneriaethu. Bu cydweithio gyda nifer fel Gwasanaeth Ieuenctid, Cell B, Canolfan Gerdd William Mathias, Theatr Derek Williams, Dawns i Bawb, Theatr y Ddraig, Tîm Oed Gyfeillgar, Grŵp Llywio'r Celfyddydau ac Iechyd, Oriel Ysbyty Gwynedd.

4.29 Fe nodwch o Atodiad 2 fod Canran Boddhad Cwsmer Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn 98% o ran Gofal Cwsmer gyda 90% o'r defnyddwyr yn dweud fod y Llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau. Ond fe nodwch hefyd mai ddim ond hanner y defnyddwyr sydd bellach yn benthyg llyfr gyda rol y canolfannau yn raddol newid i fod yn fannau cynnes, croesawgar a diogel, sydd yn cyfrannu at wella lles trigolion.

**Gwasanaethau Datblygu'r Economi, Twristiaeth, Adfywio a Chefnogi Cymunedau**

4.13 Mae'r gwasanaethau Datblygu'r Economi, Twristiaeth, Adfywio a Chefnogi Cymunedau wedi canolbwyntio eu hymdrechion dros y flwyddyn diwethaf ar weithredu'r prosiectau blaenoriaeth sydd wedi cael eu hamlinellu yn Atodiad 1. Mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn ddibynnol ar arian grant ac mae pob pecyn cymorth ddarperir i bartneriaid, cymunedau a mentrau yn cael eu monitro a gwerthuso yn unol â thelerau'r arianwyr.

## 5. Ymgynghori

5.1 Mae'r adroddiad wedi ei greu yn seiliedig ar wybodaeth a chynnwys y cyfarfod diweddaraf i herio a chefnogi perfformiad yr Adran 15 Mai 2026.

## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

6.1 Mae'r Gwasanaethau a'r Prosiectau Blaenoriaeth yn gweithredu'r dyletswydd datblygu cynaliadwy - gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant. Gwneir hyn trwy:

- **Gynnwys** trigolion/defnyddwyr gwasanaeth wrth wneud penderfyniadau a chyflwyno newidiadau;
- **Gydweithio** efo partneriaid lle'n berthnasol;
- Geisio **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol;
- Ystyried yr **hirdymor** a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod;
- Ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill er mwyn sicrhau **integreiddio.**

## 7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

**7.1** Mae pob Gwasanaeth o’r Adran a phrosiect blaenoriaeth y Cyngor yn ymwybodol o’r dyletswydd i baratoi asesiad effaith nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a’r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Defnyddir yr asesiadau hyn er mwyn gwella’r prosiectau a gwasanaethau.

## 8. Camau Nesaf

8.1 Byddwn yn cymryd sylwadau’r Pwyllgor i ystyriaeth a lle’n berthnasol yn gweithredu er mwyn gwella gwasanaethau

**Gwybodaeth Cefndir - Atodiadau**

**Atodiad 1:** Adroddiadau cynnydd cerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor
**Atodiad 2:** Mesuryddion Perfformiad yr Adran